# ACHUB Y FFILMIAU

## gan GWENAN OWEN

YM MHERFEDDION Llyfrgell Genedlaethol Cymru y mae datblygiadau diddorol. Yno ers Tachwedd 1 1989 y mae Iola Baines (Archifydd) a Gwenan Owen (Swyddog Cyswllt / Addysg) wedi ymgartrefu i ddechrau ar y gwaith o sefydlu Archif Ffilm a Fideo i Gymru.

Nid syniad newydd mo hwn gan i Gyngor y Celfyddydau noddi ymchwil i'r maes gan Jenny Steele yn 1977. Ond ni fu unrhyw ddatblygiadau pellach nes i GWELED a nifer o unigolion ymgyrchu'n frwd dros sefydlu archif ffilm yn 1987. Un o'r rhain oedd y Dr Aled Gruffydd Jones (Adran Hanes C.P.C. Aberystwyth) a gyflwynodd ei syniadau dros sefydlu Archif Ffilm a Fideo Cymreig yn ei ddarlith 'Camera Hanes'.

Bellach nae ffynonellau clyweledol yn rhan hanfodol o'n diwylliant. Os yw'n ddyletswydd ar genedl i gadw a diogelu ei diwylliant ar gyfer y dyfodol, yna y mae archif ffilm a fideo yr un mor bwysig â llyfrgell neu amgueddfa genedlaethol.

Yn wir nid syniad newydd yw hwn. Mae'r N.F.A. *(National Film Archive)* yn diogelu ffilmiau Prydeinig ers y 30au. Ond ydy sefydliad o'r fath yn ddigon ymwybodol o hynodrwydd diwylliannau lleiafrifol, ac yn ddigon parod i roi sylw arbennig iddynt? Mae'n amlwg nad oedd yr Alban yn fodlon ar wasanaeth yr N.F.A. gan i Archif Ffilm yr Alban *(S.F.A.)* gael ei sefydlu dros 12 mlynedd yn ôl. Bellach mae Cymru o'r un farn ac wedi ail-gymeryd â'r syniad.

Felly unarddeg mlynedd wedi cyhoeddi adroddiad Jenny Steele, comisiynwyd y newyddiadurwraig Siân Gwenllian i ail-gydio yn y gwaith. O fewn blwyddyn roedd yr adroddiad wedi ei gwblhau ac arian wedi ei ddiogelu i lywio cynllun peilot o ddwy flynedd.

Daw'r arian cychwynnol hwn o goffrau S4C, Cyngor y Celfyddydau, y B.F.I. *(Sefydliad Ffilm Prydeinig)*, B.A.F.T.A. a Shell UK. Ond i barhau â'r cynllun bydd angen ffynonellau ariannol llwer mwy gan fod y gwaith o ddiogelu ffilm yn fusnes drud iawn ac mae llawer o broblemau ymarferol dyrys ynghlwm â'r gwaith.

Ymysg yr amryw swyddogaethau sydd gan yr Archif y mae: casglu ffilm, casglu gwybodaeth am ffilm, diogelu ffilm, gwasanaethau i'r cyhoedd.

* * *

YN DDELFRYDOL dylai'r Archif gasglu ffilmiau Cymraeg a Chymreig, amatur a phroffesiynol ynghyd â deunydd teledu. Oherwydd cyfyngiadau lle ac arian ni fydd yn bosib casglu pob peth ac felly yn y dyddiau cynnar bydd yn rhaid llunio polisïau caeth i reoli'r casglu. Bydd hefyd rwystredigaethau eraill i'r casglu e.e. problemau hawlfraint.

Oni bydd perchennog yr hawlfraint yn fodlon rhyddhau ffilm yna bydd yn rhaid i'r Archif dderbyn hyn. Rhagwelwn hefyd y bydd llawer o ddeunydd teledu yn aros yn nwylo'r cwmnïau, ond gobeithiwn y bydd unrhyw ddeunydd nad ydynt am ei gadw yn cael ei gynnig i'r Archif.

Gan fod etifeddiaeth ffilm Cymru eisoes ar wasgar, un o swyddogaethau'r Archif fydd casglu gwybodaeth am ei leoliad. Bydd catalog yr Archif yn darparu gwybodaeth am gynnwys a fformat ffilm sydd yn yr Archif ond hefyd gwybodaeth am leoliad ffilmiau allweddol i Gymru nad ydynt yn yr Archif. Yn hyn o beth mae'r B.B.C. eisoes wedi cytuno i roi gwybodaeth ar gynnwys ei archif i ni. Yn y dyfodol efallai bydd modd trafod y posibilrwydd o gael copïau o ddeunydd pwysig neu ryw fath o gytundeb *access* i'r casgliad.

Bwriedir bwydo gwybodaeth catalog yr Archif i gyfrifiadur *data base*, ac felly, gynnig mynediad hawdd i'r defnyddiwr.

Nid yw'n ddigon i gasglu ffilm i'w gadw ar silff. Mae ffilm yn ddeunydd sensitif iawn ac mae'n dirywio'n sydyn oni fydd yn cael ei gadw yn yr amgylchedd iawn. Mae pawb yn gwybod am natur ymfflamychol nitrâd ond llai hysbys yw'r problemau sy'n dod i'r wyneb ynglŷn â ffilm asetyn, a oedd tan yn ddiweddar yn cael ei ystyried yn ddi-broblem.

Bellach gwyddom fod 'syndrom finegr' yn peri ei ddirywiad. Mae ffilm hefyd yn dirywio o gael ei defnyddio (treulio, crafu ac ati), mae felly yn bwysig cael polisi caeth ynglŷn â'i defnydd.

Mae angen nifer o gopïau o bob ffilm os am bolisi diogelu effeithiol - *master* i'w ddefnyddio nifer gyfyngedig o weithiau, deunydd at bwrpas *copïo* yn unig, a copïau gwylio ar gyfer y cyhoedd. Gallai'r olaf fod ar ffilm neu ar fideo yn ôl y galw.

* * *

BWRIAD yr Archif yw darparu gwasanaeth gwybodaeth ac addysgol. Gallai'r gwasanaeth gwybodaeth ddatblygu'n fasnachol. Er enghraifft gallai cwmni teledu ddefnyddio rhan o ffilm archifol mewn rhaglen ddogfen. Byddai'r Archif yn codi swm penodol am y gwaith ymchwil ac yna swm ychwanegol petai'r cwmni'n penderfynu defnyddio rhan o'r ffilm. (Ar hyn o bryd mae'r N.F.A. yn codi oddeutu £300 am ddefnyddio munud o ffilm. Mae hyn yn cyfrannu at gostau ymchwil a throsglwyddo'r ffilm i fideo o safon ddarlledu.

Yn addysgol mae yna lawer o bosibiliadau. O fewn yr ysgolion mae Astudiaethau'r Cyfryngau yn dod yn fwyfwy pwysig. Byddai modd cyd-weithio gydag athrawon i ddatblygu pecynnau addysgol a fyddai'n defnyddio ffilm gyda'r nod o ddatblygu agwedd fwy beirniadol tuag at y cyfryngau yn y myfyrwyr.

Syniad arall fyddai arddangosfeydd teithiol. Trwy hynny gallem obeithio cyrraedd pob rhan o Gymru, ac, o bosib darganfod pob math o drysorau ar y ffordd.

Fel y soniais ar y dechrau mae'r Archif wedi ymsefydlu yn y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth. Trefniant dros dro ydy hwn ond yr ydym yn ddiolchgar iawn, nid yn unig am y lle a'r adnoddau, ond hefyd o fedru manteisio ar arbenigedd yr Adran Clyweled sydd dipyn mwy profiadol na ni ac yn barod iawn ei wasanaeth!

---

**o dud 2**

swydd ryfeddol Gwyddon Tir Iarll yng Ngorsedd? Dengys 'Official Programme' Birkenhead fod yr un swydd â Gwyddon ar gael yn 1917.

I bob golwg, bu'n swydd am oes i Forien yn unig ond tybed a ddaeth i ben ar ôl iddo ef gilio i gysgodion ei Dderwyddon a'i Fagi Persaidd? Erbyn y dau ddegau, a chyhoeddi Iolo Morganwg a Chywyddau'r Ychwanegiad gan G.J. Williams yn 1926, rhaid fod Gwyddonod, yn Nhir Iarll a phob Tir arall yn prinhau.

Tybed ai'r un olaf yng ngorsedd i dueddbennu i gyfeiriad Iolo oedd Brinley Richards (1904-81) gyda'i lyfr rhyfedd Golwg Newydd ar Iolo Morganwg yn 1979?

* * * *

FEL Y gŵyr pawb gobeithio, 1917 oedd blwyddyn Cadair Ddu Hedd Wyn. Bu'n achlysur i'r genedl eisteddfotgar alaru'n hael ac ymchwitho mewn dagrau a thristwch ond heb i hynny gorddi dim gwrthryfel yn erbyn yr holl erchylltra ofer a gwallgof.

Talfyrwyd yr ŵyl o chwech i ddau ddiwrnod, sef dydd Mercher ac Iau a throi dydd Gwener yn 'Gymanfa Ganu Genedlaethol' o dan arweiniad 'T. Hopkin Evans. Mus: Bac: (Oxon)'.

Er nad oes dim ond pum mlynedd rhwng Eisteddfod Wrecsam ac un Birkenhead, mae llawer llai o Gymraeg yn rhaglen y naill le rhagor y llall.

Rhaid chwilio am Gymraeg yn rhaglen Wrecsam; Saesneg yw pob gair o'r ysgrifau sy'n cyflwyno'r dref a'i hanes ar ddechrau'r rhaglen, sef gwaith John Francis, Cadeirydd y Pwyllgor Llên! Yn Saesneg hefyd y disgrifir pob un sydd â'i lun yn y gyfrol.

Ond yn Birkenhead yr oedd Cymry fel Je Aitsh, Golygydd Y Brython ar gael ac mae ganddo ef dair ysgrif fer yn Gymraeg ar gefndir yr Eisteddfod a'r cylch. Efallai yn wir nad oedd na llenor na newyddiadurwr ar gael yn Wrecsam yr adeg hon a fedrai sgrifennu Cymraeg.

Saesneg oedd iaith eitemau cyngherddau'r hwyr ar wahân i ambell unawd, ond yn Birkenhead rhoed un cyngerdd Saesneg ac un yn Gymraeg i gyd. Er bod Wrecsam yn dref yng Nghymru, y tebyg yw fod mwy o Gymry i'w cael yr adeg yma yn Birkenhead a Chymry llawer mwy brwd eu Cymreictod.

Fel yr oedd hi yr adeg hon, yr efengyl gymdeithasol bwysig yng Nghymru oedd plesio a gwrhau i'r Saeson, ond os oeddych yn byw yn eu canol yn Lloegr, boed hynny yn Birkenhead neu unman arall, 'doedd hi ddim cymaint o bwys am hynny ac yr oeddych yn debycach o fod yn fwy annibynnol eich ysbryd. Gydag ambell eithriad, Rhyddfrydwyr oedd arweinwyr y Cymry alltud hyn.

Byw fel Saeson dosbarth canol a geisiai Cymry o'r un haen yn eu gwlad eu hunain; byw gyda hwy a wnâi'r Cymry alltud a dysgu eu hadnabod dipyn gwell a chraffach. Capeli Cymraeg a godwyd yn Lerpwl; dim ond yng Nghymru y bu rhai'r 'Inglis Côs'.

* * * *

CYFEIRIAIS at rai sydd â'u lluniau yn yr hen raglenni hyn. Dyma oedd cantorion a diddanwyr y dydd pan oedd fy nhad a'i genhedlaeth yn bobl ifanc yn dechrau byw.

Heddiw, byddent ar y teledu ac yn dod i'n cartrefi yn llawer amlach nag y gallai ein tadau fynd allan i neuadd ac Eisteddfod i'w gweld a'u clywed hwy, yn 1912.

Pwy oeddynt, a beth oedd eu hanes? Dyna ddatgeiniaid, 'sêr' 1912, Bessi Jones, Telynores Gwalia; y Fadam Ada Crossley a'r Fadam Laura Evans-Williams; y Misses Dilys Jones, Amy Evans, Mina Williams, Phyllis Lett ac Edith Davies? Ac o blith yr hogiau, pwy oedd E. Emlyn Davies, gyda'i wallt llaes cerddorol, a Walter Wiliams, cyfeilyddion Wrecsam. A dyna R. Purcell Jones, sydd i'w weld yn cofleidio'i soddgrwth yn glustfeingar mewn mwy nag un.

Clywais am y datgeiniaid David Ellis a Powell Edwards, dau ddyn ifanc yn 1912. Dau fasar oedd David Hughes a Charles James (ef o Gadeirlan Caer) a thenor oedd Thomas Thomas a fu'n ei morio hi yng Nghyngerdd Wrecsam nos Wener gyda 'Sound an Alarm'.